# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION
## CYFARFOD BLYNYDDOL
## MAI 2012

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher,16eg Mai |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | Neuadd Rhostryfan |
| **AELODAU'N BRESENNOL** | Elwyn Jones (Cadeirydd),Meurig Williams, Gwilym V.Thomas, Nerys Evans, Tom Ellis, Jason Hunt, Neal Williams, Gwilym L.Williams, Aeron M.Jones |

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso** |
| 2 | **Ethol Swyddogion ar gyfer 2012-13**<br>Arwyddo'r dogfennau derbyn swydd cynghorydd<br>Cyfetholwyd y canlynol yn aelodau llawn o'r cyngor:<br>Gwilym V.Thomas<br>Meurig Williams<br>Neal Williams<br>Aeron M.Jones<br>Trafodwyd un sedd wag yn Rhosgadfan. Daeth tri enw ymlaen, a chyfetholwyd Michelle Williams yn aelod llawn.<br>Etholwyd Gwilym V.Thomas fel cadeirydd ac Elin Evans fel is-gadeirydd am y flwyddyn. |
| 3 | **Ymddiheuriadau** |
| 4 | **Datgan Buddiant** |
| 5 | **Cadarnhau cofnodion**<br>Cadarnhawyd cofnodion mis Ebrill fel rhai cywir. |
| 6 | **Materion i'w trafod:**<br>a) EE – gofyn i'r cyngor gyfarfod yng Nghanolfan Llanwnda eto.<br>b) EE – awgrymodd y dylem greu pamffledi hyrwyddo'r ardal, yn arbennig felly Lein Bryngwyn, ar gyfer y Steddfod. Awgrymodd RhO y dylem greu ffeiliau PDF yn ogystal â phamffledi.<br>c) GVT – Lein Bryngwyn – cwn yn rhydd – arwyddion. Cael gosod arwyddion cwn ar dennyn ar hyd y lein mewn llefydd agored.<br>d) GVT – bil am £1 – does dim modd danfon bil bob pum mlynedd, eglurodd NE fod system y cyngor ond yn derbyn taliadau wythnosol, misol neu flynyddol, ond nid oes modd ar hyn o bryd gwneud taliadau am hwy na hynny.<br>e) MW -Palmant Eryri Wen – manhole BT wedi torri – clerc i gysylltu efo Meirion yng Nghyngor Gwynedd.<br>f) MW – ciosg. Nododd y clerc ei bod wedi derbyn cadarnhad y bydd y ciosg yn cael ei glirio, ond ni allai'r cwmni roi dyddiad pryd y bydd yn digwydd.<br>g) RhO – prisiau canolfannau hamdden wedi codi'n ofnadwy<br>h) RhO – ffordd osgoi – unrhyw wybodaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | i) RhO – arwyddion – taith arfordir yn newydd – 4/5 postyn yn hytrach nag un postyn<br>j) AMJ – lot o gwynion fod gor-yrru. Saron a Waunfawr yn dod yn ‘priority area’ ac mae’r heddlu yn dod yno yn rheolaidd<br>k) EE – Hogans efo arwyddion ymhobman. Junction Ffrwd Cae Du– wedi dympio tarmac – cefnffyrdd. Clerc wedi derbyn cadarnhad y bydd y safle yn cae ei glirio.<br>l) RhO – drain rhwng Dinas a Ffrwd Cae Du – rhannau yn unig sydd wedi’u torri. Blerwch cyffredinol ar ol y gwaith<br>m) ElJ – arwydd brown – holi am gost”llwybr llechi Bryngwyn slate trail”<br>n) ElJ – Cae Helygen– coed yn dod lawr i mewn i’r lôn<br>o) ElJ – cysylltu efo cadeirydd Llandwrog a trio’u perswadio i gyfarfod ag Elwyn ar y safle i weld os fedran ni eu perswadio i gario ‘mlaen efo’r gwaith o fynd a’r llwybr rownd i Bryngwyn, a torri’r eithin yng nghefn Cae Haidd. Clerc i holi ymhellach. | |
| 7 | **Derbyn Adroddiadau** | |
| 8 | **Is-bwyllgorau**<br>Nos Fawrth diwethaf, is-bwyllgor ariannol lle cadarnhawyd fod y cyfrifon yn gywir. Bellach gan yr archwiliwr mewnol. | |
| 9 | **Materion Ariannol**<br>Cyfri Cadw:<br>Cyfri Siec:<br>Taliadau:<br>Cyflog/costau clerc Mai<br>Cyllid y Wlad<br>Siôn Owen – torri’r fynwent<br><br>Wedi cael addewid o £250 tuag at y gost o adnewyddu’r bont ar Lein Bryngwyn.<br>Gofyn wrth Mitch ddod i fyny i sprayo knotweed eto. | <br>11,609.04<br>1,108.56<br><br>418.65<br>98.40<br>420.00 |
| 10 | **Materion Cynllunio** | |
| 11 | **Gohebiaeth:**<br>a. Cylchgronnau | |
| 12 | **Materion mis nesa**<br>MW – Rhosgadfan ddim ar y list torri gwair pentrefi.<br>MW – Lôn Beudy – drain, eithin, mieri<br>TE – llwybr wedi’i gau yn Parc/Plas – Gerallt llwybrau?<br>ElJ – Maen Brith/Waun Bant holi i ledu<br>TE – llongyfarch Aeron ar ei ethol yn Gynghorydd Sir. Mae wedi sefydlu gwefan www.llanwnda.org<br>EE – dwr tu allan i Ganolfan Felinwnda<br>GLW – dros y ffordd i Isfryn, dwr yn dod o Bryn Glas, tyllau yn y ffordd<br>Coeden tu ol i ciosg Rhos Isaf<br>NE – biniau fynwent heb eu gwagio yr wythnos diwethaf | |

| | |
|---|---|
| | NE – llinellau atal parcio yn sgwâr Rhostryfan – angen arwyddion<br>NE – cofeb ar y tir comin ger Tan y Gaer – angen mynd yn ôl at y Goron<br>Penderfynwyd archebu mainc fawr efo'r geiriau Cyngor Cymuned Llanwnda a'r ddraig goch arni, er cof a m Dewi Tomos, a'i gosod yn yr hen orsaf, Rhostryfan.<br>AMJ - plismyn yn mynd i ddod i sgwar Rhostryfan – gor-yrru. |
| | Daeth y cyfarfod i ben am 8.15pm |